Mae'r ymgynghoriad bellach wedi dod i ben

**Datblygiad proffesiynol parhaus**

Mae'n ddyletswydd ar nyrsys a bydwragedd i ddiweddaru eu gwybodaeth broffesiynol a'u sgiliau drwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Mae'r safon ailddilysu arfaethedig fel a ganlyn:
*Rhaid i chi ymgymryd â 40 awr o DPP o fewn cyfnod o dair blynedd ac mae'n rhaid i o leiaf 20 o'r oriau hynny fod yn ddysgu cyfranogol h.y. dysgu gydag eraill.*

Yn ogystal, bydd angen i'r DPP fodloni'r meini prawf canlynol er mwyn ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer gwaith ailddilysu:

- Rhaid i'r gweithgaredd DPP fod yn gysylltiedig â'r Cod a chofrestriad y nyrs neu'r fydwraig
- Rhaid i ganlyniad y gweithgaredd DPP eich helpu i fod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am gwmpas eich ymarfer

Fel rhan o'r broses ailddilysu arfaethedig, bydd angen myfyrio ar bob gweithgaredd dysgu a datblygu o ran sut mae'r gweithgaredd dysgu wedi gwella ymarfer, neu wedi diweddaru ymarfer mewn perthynas â'r Cod.

Dylai DPP fod yn agwedd graidd o yrfa nyrs neu fydwraig adylai fod yn broses barhaus a gellir ei gyflawni mewn sawl ffordd. Nid a wnelo'n unig â mynychu cyrsiau hyfforddi neu ddarlithoedd, er eu bod yn ddilys ynddynt eu hunain. Gellir ei gyflawni drwy hyfforddiant ar-lein, mentora gan eraill, mynychu grwpiau cymorth defnyddwyr gwasanaethau neu ddarllen detholus.

Diffiniadau:
Mae dysgu cyfranogol yn cynnwys gweithgareddau dysgu sy'n gofyn am ryngweithio ag eraill, er enghraifft: cael eich mentora yn ystod ymarfer a chyrsiau hyfforddi grwpiau.

Mae dysgu anghyfranogol yn cynnwys gweithgareddau dysgu a wneir yn annibynnol, er enghraifft: darllen ac adolygu cyhoeddiadau perthnasol a chwilio'r rhyngrwyd.